Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Mr Adam Barnett
Ysgol Gymraeg Gwenllian
Cydweli
Sir Gaerfyrddin
SA17 4UT

01/05/2025

Annwyl Mr Barnett

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymraeg Gwenllian yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag un argymhelliad o'u harolygiad craidd ym mis Tachwedd 2022. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnydd yr ysgol wrth gyflawni gofynion un blaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y meysydd ffocws hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau, gan gynnwys ymweliadau ar y cyd â'r pennaeth
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennaeth

## Ffocws yr ymweliad

### Meithrin diwylliant darllen cyfoethog er mwyn cefnogi cynnydd a mwynhad disgyblion mewn testunau Cymraeg gan awduron o Gymru

- Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n fwriadus i gefnogi disgyblion i fwynhau darllen, gyda'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Maent yn gweithredu'n strategol er mwyn manteisio ar bob cyfle posibl i wella'r ddarpariaeth arloesol. Mae llais disgyblion yn rhan werthfawr o'r broses hon ac yn dylanwadu'n fuddiol at y datblygiadau. Trwy hyn, mae gan

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddarllen ac yn mwynhau ymgolli mewn ystod o destunau ffuglen a ffeithiol Cymraeg gan awduron o Gymru.

- Mae staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i'w cefnogi i ddwysáu eu gwybodaeth a'u delltwaith o'r modd mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn adeiladol dros amser. Mae staff yn cydweithio llwyddiannus â staff ysgolion y clwstwr sy'n rhoi trosolwg perthnasol iddynt o'r disgwyliadau am ddarllen.
- Mae'r amgylchedd dysgu deniadol yn cynnwys ardaloedd darllen penodol ymhob dosbarth. Caiff gwybodaeth darllen ei arddangos yn effeithiol fel rhan annatod o'r ddarpariaeth, er enghraifft codau QR yn cyflwyno gwybodaeth am awduron o Gymru.
- Un o rinweddau nodedig y ddarpariaeth yw'r modd mae staff yn defnyddio teclynnau digidol er mwyn cefnogi medrau darllen disgyblion ymhellach, sy'n cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer disgyblion ag addysg dysgu ychwanegol. Mae hyn yn ei dro yn rhoi'r hyder i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen mewn amgylchedd cynhwysol.
- Yn unol ag oed a cham datblygu'r disgyblion, mae'r rhan fwyaf yn trafod nodweddion gwahanol fathau o destunau ffuglen a ffeithiol yn llwyddiannus gan ddefnyddio termau penodol yn gywir, fel clawr, broliant a chymeriadau. Mae ystod dda o adnoddau darllen Cymraeg ar gael i ddisgyblion yn yr ysgol ac maent yn eu trin yn ofalus a gyda pharch.
- Mae staff yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni er mwyn rhannu syniadau am weithgareddau darllen a'r modd maen nhw'n gallu cefnogi eu plant gartref. Mae gwefan 'Cariad at Ddarllen' yr ysgol, ble lansiwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth ffoneg i rieni ar-lein, yn gyfrwng cyfathrebu sy'n darparu cefnogaeth effeithiol yn hynod lwyddiannus.

## Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n greadigol mewn genres sy'n berthnasol ac yn dilys i'w dyfodol

- Mae arweinwyr wedi darparu cyfleoedd i staff y disgyblion ieuengaf i dderbyn hyfforddiant bwrpasol ar ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar.
- Mae athrawon yn cyflwyno ystod o ffurfiau ysgrifennu i ddisgyblion o oedran ifanc. Maent yn sicrhau bod gwahanol fathau o lyfrau ar gael er mwyn codi ymwybyddiaeth y disgyblon o bwrpas gwahanol fathau o ysgrifennu. Mae staff y disgyblion ieuengaf wedi ail gyflwyno dull llafar o gyfleu stori i ddisgyblion yn rheolaidd. Golyga hyn oll fod y disgyblion yn dod yn ymwybodol o bwrpas gwahanol fathau o ysgrifennu o oedran ifanc.
- Mae staff y disgyblion ieuengaf yn dwysau ymwybyddiaeth ffonolegol disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyfoethog i hybu eu medrau ysgrifennu cynnar.

- Erbyn Blwyddyn 2 mae athrawon yn cyflwyno disgyblion i ystod fwy eang o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn rhannu enghreifftiau safonol gyda'r disgyblion ac yn addasu'r enghreifftiau er mwyn amlygu nodweddion benodol y ffurfiau dan sylw. Mae'r athrawon yn arwain disgyblion yn feistrolgar i arbrofi ac i rhoi cynnig ar ysgrifennu enghreifftiau eu hunain.
- Mae arweinwyr wedi ymgynghori gyda disgyblion a staff yn llwyddiannus er mwyn mapio y ffurfiau ysgrifennu a gyflwynir ym mhob tymor. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni gwaith o'u dewis sy'n gyfredol ac yn apelio atynt. Maent yn cynnwys o leiaf un dasg ysgrifennu creadigol bob tymor.
- Mae arweinwyr a staff wedi sicrhau ystod eang o brofiadau gwerthfawr i ddisgyblion hŷn er mwyn eu hysbrydoli i ysgrifennu'n ddychmygus ac yn greadigol. Maent yn mynychu ymweliadau'n gyson ac yn croesawi ymwelwr i'r ysgol. Mae'r profiadau hyn yn datblygu medrau ysgrifennu creadigol disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae athrawon yn paratoi disgyblion tuag at ysgrifennu'n greadigol mewn modd adeiladol sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion yr eirfa a'r ddealltwriaeth o gystrawennau a gramadeg berthnasol ar gyfer llwyddo yn y dasg.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: [http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692370](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692370)

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol